

Gwaith y Corff Llywodraethol

Mae corff llywodraethol mewn unrhyw ysgol yn gallu cael ei gymharu fel 'cyfaill beirniadol' hynny yw, yn cynnig cefnogaeth a chynghor i'r pennaeth ac yn gweithredu fel fforwm ar gyfer trafod syniadau a mentrau sy'n ymwneud â'r ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn gweithio ar lefel strategol i

- osod nôd ac amcanion ar gyfer yr ysgol
- gytuno ar bolisiau, targedau a blaenoriaethau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn.
- monitro a gwerthuso'r nôd a'r amcanion a gweld a gyflawnwyd y polisiau, targedau a blaenoriaethau.

Mae cyfrifoldeb y corff llywodraethol yn cynnwys ymddygiad cyffredinol yr ysgol, cyflawni gofynion cwricwlaidd, rheoli'r gyllideb, cymryd rhan yn y broses o benodi staff a darparu gwybodaeth i rieni, yr awdurdod lleol ac Estyn.

Mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio gyda'r pennaeth a'r tîm i benderfynu beth sydd angen i'w wneud i barhau datblygiad yr ysgol. Nid yw'r corff yn gyfrifol ar lefel weithredol, y pennaeth a'r uwch dîm rheoli sy'n gyfrifol am reoli yr ysgol o ddydd i ddydd.

Mae'r corff llywodraethol yn cyfarfod yn llawn chwe gwaith y flwyddyn, unwaith bob hanner tymor i wneud y gwaith hyn. Mae pob llywodraethwr hefyd yn aelod o is-bwyllgorau, er enghraifft, cyllid, iechyd a diogelwch ac ati. Bydd y rhain yn cyfarfod ar wahan i drafod meysydd penodol ac yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu llawn. Mae enwau, statws, cyfrifoldeb a chyfnod mewn swydd pob llywodraethwr yn yr adroddiad hwn.

Mae pob ysgol yn cynnal proses o hunan-werthuso gyda'r nôd o wella ansawdd. Yn ein hysgol ni mae hyn yn seiliedig ar y cwestiynau allweddol a ofynwyd mewn arolwg; mae'r pennaeth a'r staff yn trafod y cwestiynau hyn gan edrych ar ddarpariaeth yr ysgol ac mae'r broses yn cael ei rhannu gyda'r corff llywodraethol. O'r dadansoddiad hwn mae cynllun gwella'r ysgol yn cael ei lunio a chamau gweithredol yn cael eu gosod i feysydd penodol lle gall hyfforddiant pellach, adnoddau newydd, cyfleusterau gwell neu fentrau newydd gyfrannu at addysgu mwy effeithiol. Mae'r hunan-werthuso a chynllun gwella'r ysgol yn ddogfennau sy'n esblygu ac maent yn cael eu hadolygu ar wahanolgyfnodau yn ystod y flwyddyn yn enwedig ar ddiwedd y flwyddyn ysgol pan fydd data asesu ar gael ar gyfer pob ysgol a gellir eu cymharu â data sydd wedi'u grwpio ar gyfer pob ysgol yn yr awdurdod lleol a'r holl ysgolion ledled Cymru.

Mae gan ein hysgol is-bwyllgor gwricwlwm a data yn benodol i fonitro data gan fod pwyslais cynyddol ar hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r is-bwyllgor yn archwilio data gan ein teulu o ysgolion, tueddiadau amser a gwahaniaeth rhyw. Yn aml cyflwynir y math yma o ddata perfformiad mewn canrannau ac mewn gwirionedd mae dadansoddiad o'r fath yn anodd mewn ysgol gynradd lle mae nifer y disgyblion yn fach; mewn sampl bach mae pob plentyn yn cynrychioli canran uwch o'r sampl hwnnw. Mae crynodeb o ddata perfformiad yr ysgol i gymharu ag Asesiadau Cenedlaethol a'n targedau ar gael i chi yn yr adroddiad hwn. Fel corff llywodraethol a staff rydym yn ystyried y data hwn ar y cyd a'r hyn a wyddom am y plant yn eu grwp blwyddyn a beth oedd ein disgywiliadau ar eu

cyfer o'r linell ddata Sylfaen. Yn Ysgol Gymraeg y Fenni ein mesur o lwyddiant yw bod pob plentyn yn cyrraedd ei botensial neu ei photensial.

Fel ysgol rydym yn anelu at greu amgylchedd lle mae'r disgyblion yn ddiogel a hapus ac maent yn elwa o ddarpariaeth sy'n eu galluogi i ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn ysbrydol ac yn gorfforol hyd eithaf eu gallu.

Fel corff llywodraethu rydym yn anelu at berthynas agos rhwng yr ysgol a'r rhieni, y gymuned ehangach a'r awdurdod lleol. Mae'r corff llywodraethol hefyd yn dymuno hyrwyddo cydweithio effeithiol rhwng:

- Pennaeth a staff
- Staff a rhieni
- Llywodraethwyr, staff a rhieni